Jenny Williams
Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad: 06/06/2023

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gweithgarwch rhwng 14 a 17 Mawrth 2023. Diben yr adolygiad oedd rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.

**<u>Crynodeb o'r canfyddiadau:</u>**

1. **A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG) wedi ei fodloni?**

1.1. Ceir tystiolaeth gyson i ddangos bod dogfennau gweithredol yn cael eu defnyddio'n unol â'r canllaw arferion gorau a luniwyd gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021). Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol wrth roi arferion gorau ac arloesedd ar waith. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill ledled Gogledd Cymru i adolygu a diweddaru dogfennaeth strategol berthnasol ymhellach, gan ystyried yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig a roddwyd ar waith ym mis Ionawr 2023 gan y farnwriaeth ledled Cymru a Lloegr.

1.2. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ddull systematig ar waith er mwyn sicrhau y caiff y trothwy ar gyfer yr ACG ei fodloni, wedi'i lywio gan bolisïau

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
AGC@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynhwysfawr ar gyfer proses cyn-achos yr ACG. Mae trefniadau goruchwylio clir ar waith gan yr awdurdod lleol i oruchwylio arferion gorau mewn perthynas â'r ACG ac mae'n dryloyw o ran yr hyn a ddisgwylir yn ystod pob cam o'r broses.

1.3. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd iawn â'r prosesau hyn, ac roedd y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn cadarnhau fod y llwybr ACG yn cael ei gefnogi gan fframweithiau clir sy'n nodi'r hyn sydd ei angen yn ystod pob cam er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau diogel ar ran plant a phobl ifanc.

1.4. Mae'r cofnodion gofal cymdeithasol yn nodi pryderon yn glir, a gwelsom fod diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc yn cael blaenoriaeth. Caiff camau gweithredu priodol ac amserol eu cymryd pan fo angen, gan gydymffurfio ag egwyddorion arferion gorau'r ACG, a cheir tystiolaeth gref bod gwaith atal helaeth yn cael ei gynnal er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i helpu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau gofal i wneud newidiadau cadarnhaol.

1.5. Caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, drwy gynnig amrywiaeth helaeth o fathau o gymorth penodol wedi'u teilwra'n arbennig i ddiwallu'r anghenion a nodwyd. Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod cynlluniau wrth gefn ar gael, gyda'r awdurdod lleol yn nodi beth fyddai'n digwydd pe na fyddai'r cynlluniau yn effeithiol.

1.6. Mae'r cynlluniau cymorth yn cynnwys nodau clir, gan bennu canlyniadau penodol yn ogystal â therfynau amser ar gyfer eu cyflawni. Caiff risgiau eu nodi'n glir, a cheir dealltwriaeth o'r ffordd orau o leihau'r risgiau hyn, eu rheoli a/neu eu gwella.

1.7. Ar y cyfan, mae safonau asesiadau yn foddhaol, ac mae'r gorau o'u plith yn darparu dadansoddiad clir, gan fyfyrio ar yr hyn a oedd yn bwysig i'r plentyn / person ifanc yn ogystal â darparu ymdeimlad clir o'i brofiad bywyd. Mewn rhai achosion, gwnaethom nodi achosion o oedi wrth gynnal asesiadau, a allai fod wedi atal y broses o wneud penderfyniadau ac, yn y pen draw, effeithio ar y gallu i ddarparu cymorth amserol. Roedd asesiadau eraill yn nodi cryfderau unigol y rhai hynny a oedd yn rhan o'r broses yn glir, ond byddai eu cysylltu â'r broses o leihau risgiau wedi eu gwneud yn fwy cadarn.

1.8. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r angen i ddatblygu a mireinio ei brosesau a'i systemau sicrhau ansawdd ymhellach er mwyn gwneud yn siŵr y gall rheolwyr roi trefniadau goruchwylio gwell ar waith mewn perthynas â'r darlun cyffredinol o achosion y mae'r broses cyn-achos yn berthnasol iddynt. Byddai system o'r fath yn cynnig mwy o sicrwydd o ran ansawdd ymarfer. Mae'r heriau diweddar a wynebwyd o ganlyniad i'r broses o newid i ddefnyddio cronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn ystod cyfnod y pandemig wedi amharu ar y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth mewn perthynas â'r ACG.

1.9. Yn ystod cyfnod ein gwaith maes, nid oedd modd cael gafael ar rai dogfennau drwy gronfa ddata flaenorol PARIS na chronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n peri pryder.

1.10. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dîm rheoli profiadol a sefydlog sy'n goruchwylio gweithdrefnau mewn perthynas â'r ACG. Mae'r ddealltwriaeth gyffredin o fewn yr awdurdod lleol am y trothwy ar gyfer cychwyn proses cyn-

achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a gaiff ei chefnogi gan yr amrywiol gyfarfodydd a gynhelir yn unol â'r prosesau cyn-achos a'r polisi ACG, yn gryfder amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd ychwanegol lle yr ystyrir bod eu hangen, sy'n sicrhau na chaiff penderfyniadau o bwys eu gwneud gan weithwyr cymdeithasol heb gynnwys pobl eraill.

1.11. Gellir cael gafael ar gyngor cyfreithiol ar gyfer y broses ACG yn hawdd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau wedi'u llywio gan wybodaeth broffesiynol, a chaiff gorchmynion llai eu herio a'u hystyried yn briodol lle bo angen. Mae tîm profiadol a sefydlog o gynghorwyr cyfreithiol ar gael i'r Gwasanaethau Plant, ac mae tri ohonynt yn arbenigo mewn cyfraith gyhoeddus plant.

1.12. Roedd cynrychiolwyr y gwasanaeth cyfreithiol y gwnaethom siarad â nhw yn amlwg yn gyfarwydd iawn â'r Canllawiau Arfer Gorau ar gyfer yr ACG a'r fersiwn ddiwygiedig o'r canllawiau hyn a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywydd yr Is-adran Teuluoedd a goblygiadau hyn o ran ymarfer. Mae asesiadau gwaith cymdeithasol cadarn ar waith sy'n llywio ymyriadau wedi'u cynllunio ar y cyd â theuluoedd. Mae derbyn cyngor cyfreithiol yn gynnar yn helpu i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ACG yn gyflym yng Nghonwy.

1.13. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y systemau monitro ar gyfer goruchwylio agweddau cyfreithiol ar gam cyn-achos yr ACG wedi'u datblygu cystal. Mae'r angen i ddatblygu hyn ymhellach wedi'i nodi, a chawsom wybod y bydd yr awdurdod lleol yn mabwysiadu dull mwy cadarn mewn perthynas â'r systemau hyn o fis Ebrill 2023 ymlaen.

## 2. A oes trefniadau effeithiol ar waith er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr am drefniadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r hyn y mae'r broses hon yn ei olygu?

2.1. Yn unol â'i ymrwymiad i'w wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar a chan gydnabod y rôl allweddol a gaiff ei chwarae gan y gwasanaethau hynny, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol wedi parhau yn gymharol gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2.2. Mae dull gweithredu seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn sail i ymarfer gwasanaethau plant yng Nghonwy, yn unol ag egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae darpariaeth sefydledig ac amrywiol ar gael i blant a theuluoedd, gan gynnwys y Tîm Cryfhau Teuluoedd (SFT) a'r Tîm Ymyriadau Teuluol (FIT), y mae eu trefniadau rhyngweithio wedi'u llunio'n benodol i ddiwallu anghenion y teuluoedd dan sylw.

2.3. Mae'r awdurdod lleol yn awyddus i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn glir o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt pan gaiff proses ACG ei rhoi ar waith. Mae gan y gweithwyr cymdeithasol a'u huwch-reolwyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae trefniadau cyn-achos yr ACG yn gweithio, ac ymrwymiad i hysbysu plant a theuluoedd am yr hyn y mae'r broses yn ei olygu iddyn nhw.

2.4. Mae trefniadau ar waith i hysbysu rhieni a gofalwyr am yr ACG a'r hyn y mae'r broses yn ei olygu. Yn anochel, cafodd y pandemig diweddar rywfaint o effaith ar y trefniadau hyn. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys llythyrau ACG safonol a gaiff

eu cyhoeddi yn unol â'r canllawiau arfer gorau sy'n cynnwys manylion clir am bryderon yr awdurdod lleol a'r hyn a ddisgwylir gan rieni, yn ogystal â manylion cyfreithwyr lleol y gallai'r rhieni gysylltu â nhw. Mae taflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni a phlant / pobl ifanc am y broses cyn-achos a'r ACG hefyd ar gael, ond nid oedd yn glir pryd y caiff y rhain eu rhannu fel mater o drefn, ac eithrio fel rhan o gynhadledd achos.

2.5. Gallai'r broses ar gyfer cyfathrebu â rhieni fod yn fwy cyson. Er enghraifft, ni chafodd unigolyn â chyfrifoldeb rhiant gyfle i lofnodi trefniadau Adran 76, yn groes i'r canllawiau arfer da.[1]

2.6. Ceir ymrwymiad i atal teuluoedd rhag chwalu ac i weithio er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn adnabod y teuluoedd a'r plant y maent yn gweithio gyda nhw yn dda, a gwneir ymdrechion i sicrhau parhad cydberthnasau lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau hefyd lle roedd plant a theuluoedd wedi profi newid mewn gweithiwr cymdeithasol, (gan gynnwys wrth iddynt gael eu trosglwyddo rhwng timau fel rhan o'u llwybr drwy'r gwasanaethau cymdeithasol) gan darfu'n anochel ar gydberthnasau allweddol.

2.7. Roedd yr adborth gan y rhieni y gwnaethom siarad â nhw am natur ac ansawdd y cymorth roeddent yn ei gael gan yr awdurdod lleol yn amrywiol, gyda rhai yn nodi nad oeddent yn fodlon ar y gwasanaethau a'r cyngor a oedd ar gael iddynt. Dywedodd un rhiant wrthym, er nad oedd yn fodlon ar y canlyniad, ei fod yn deall y rhesymau dros gymryd y camau gweithredu, a bod y rhesymau hynny wedi cael eu hesbonio'n glir iddo.

2.8. Roedd eraill yn llawn canmoliaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r broses gyfathrebu rhyngddynt â'r gweithiwr cymdeithasol a natur y cydberthnasau a ddatblygwyd â'u plant. Dywedodd un rhiant, *"The social worker was great with the children. Always made the visits fun and the children never felt like they were being watched or checked up on. Very child focused like that".* Dywedodd rhiant arall wrthym, "*My children aren't in foster care; they have supported me to keep them safely. I understand about parenting now and am a better father. I can't think of anything they could have done better".*

## 3. A yw'r trefniadau cynllunio gofal yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?

3.1. Mae'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth yn amserol ac yn ystyrlon ac yn cael ei lywio gan ganlyniadau diogelwch a llesiant y plentyn. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd o fewn amserlenni disgwyliedig, a bod diweddariadau ar gynnydd hefyd yn cael eu cynnwys.

3.2. Gwelwyd tystiolaeth fod cymorth effeithiol yn cael ei roi gan bartneriaid fel rhan o'r broses ddiogelu, drwy gyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos cychwynnol â lefelau presenoldeb da. Wrth arsylwi ar y paneli Ymyrryd yn Gynnar ac Ar Ffiniau Gofal, gwelsom drefniadau rhagorol ar gyfer gweithio mewn

[1] O dan Adran 76 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gall plentyn neu berson ifanc gael ei letya gan yr awdurdod lleol lle y bydd yr unigolion hynny â Chyfrifoldeb Rhiant yn cytuno i'r trefniant hwn. Bydd y plentyn yn 'derbyn gofal' o dan drefniant Adran 76.

partneriaeth, ac roedd lefelau presenoldeb da gan amrywiol asiantaethau partner a sefydliadau yn ystod cyfarfodydd y paneli. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o faes iechyd ac addysg yn ogystal â gwasanaethau cymorth maethu, ieuenctid a theuluoedd a wnaeth gyfraniad gwerthfawr a chytbwys at y paneli. Cynhaliwyd trafodaethau ar sail gwybodaeth, a oedd yn myfyrio ar ddymuniadau a theimladau'r rhai hynny dan sylw, ac yn cydbwyso cryfderau ac anghenion unigol. Roedd sgyrsiau proffesiynol a oedd yn cael eu rheoli'n dda yn hwyluso deialog agored, gan arwain hefyd at heriau adeiladol gan yr asiantaethau partner dan sylw. Roedd yn amlwg bod pawb a oedd yn rhan o'r broses yn adnabod y teuluoedd a'r plant yn dda, a'u bod yn gweithredu fel eiriolwyr effeithiol ar ran y rhai hynny yr oeddent yn eu cynrychioli.

3.3. Roedd y ffeiliau a welsom hefyd yn dangos tystiolaeth o drefniadau cadarn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, lle roedd gwybodaeth o safbwynt iechyd ac addysg yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar fywydau plant a'u profiadau bywyd dyddiol. Roedd yr heddlu hefyd yn gwneud cyfraniad gweithredol at y trefniadau, gyda'r ddogfennaeth yn adlewyrchu'r cyfraniad hwnnw fel y bo'n briodol. Rhoddir blaenoriaeth briodol i'r ddiogelu drwy gydol y broses, gyda diweddariadau a chanlyniadau clir mewn perthynas â chynlluniau diogelwch, ac unrhyw gamau gweithredu brys gofynnol yn cael eu cytuno.

3.4. Caiff cynadleddau grŵp teulu eu defnyddio'n effeithiol i ystyried opsiynau a fyddai o fudd i'r plant, gan gynnwys gofyn i aelodau o'r teulu ehangach gyfrannu. Mae hyn yn dangos ymrwymiad clir i ystyried y teulu estynedig fel rhan o'r prosesau cynllunio diogelwch a chynllunio wrth gefn. Roedd y cynadleddau hyn fel arfer yn cael eu cynnal yn ystod camau cynnar y daith cyn-achos, yn ystyried trefniadau ymarferol fel pa weithiwr proffesiynol fyddai'n gallu rhoi cymorth i aelodau unigol o'r teulu orau, amseru'r cyfarfod (cafodd un ei gynnal gyda'r nos er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl fod yn bresennol) a threfniadau o ran trafnidiaeth er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl fynychu. Roedd y rhain yn enghreifftiau cadarn o weithio'n unol â chanllawiau arfer gorau'r ACG.

3.5. Roedd yr asiantaethau partner yn gyffredinol yn canmol y cysylltiadau cyfathrebu a'r broses ar gyfer cyfnewid gwybodaeth â'r awdurdod lleol. Un eithriad posibl yw'r diffyg eglurder ynghylch sut a phryd y rhoddir gwybod i asiantaethau partner am y penderfyniad i gychwyn achos gofal, gan nad ydynt yn mynychu'r cyfarfodydd fel mater o drefn.

3.6. Mae'r broses o wneud penderfyniadau ar barhad gofal yn amserol a chaiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn osgoi oedi yn y broses o wneud penderfyniadau. Gwelsom dystiolaeth fod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud i gychwyn achos gofal, a bod y cyfiawnhad dros y penderfyniad hwnnw yn cael ei nodi'n fanwl. Roedd achosion yn cael eu goruchwylio'n effeithiol gan Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol, ac roedd tystiolaeth o broses herio lle roedd angen proses o'r fath mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu a chyflymder y broses o'u rhoi ar waith.

3.7. Roedd y gwasanaethau cyfreithiol a'r cynrychiolwyr eraill y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus fod plant yn cael cymorth i aros gyda'u teuluoedd lle bynnag y bo'n bosibl. Roeddent hefyd yn cydnabod nad oedd weithiau'n ddiogel o hyd i blant fyw gyda'u teuluoedd agos, er gwaethaf y lefelau uchel a sylweddol o gymorth a roddwyd ar waith. Gwelsom enghraifft o hyn mewn un achos lle roedd

y ffeiliau a welwyd yn adlewyrchu trafodaethau a chytundebau clir y dylid llunio gorchymyn brys pe byddai'r rhiant yn dewis symud y plant. Roedd enghreifftiau eraill yn dangos ymrwymiad clir yr awdurdod lleol i gymryd camau ataliol i sicrhau bod plant yn parhau i fyw gartref gyda'u teuluoedd, wedi'u cefnogi gan drefniadau gofal sylweddol.

3.8. Dywedodd y rheolwyr wrthym am heriau penodol mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer babanod heb eu geni, yn enwedig pan na fyddai'r awdurdod lleol ond yn cael gwybod amdanynt yn hwyr yn y broses. Mae'r prosesau sydd ar waith yn seiliedig ar waith ymchwil a gynhaliwyd gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (Mewn Gofal o'u Geni). Lle bynnag y bo'n bosibl, maent yn ymyrryd yn gynnar ac yn darparu cymorth i'r rhiant, gan ystyried lleoliadau i'r fam a'i babi fel y bo'n briodol. Ni chaiff achos gofal o reidrwydd ei gychwyn pan gaiff y babi ei eni, ac maent yn ceisio rhoi cymorth ar sail wirfoddol lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r achosion hynny nad oes modd eu rhagweld cystal, lle mae angen barn feddygol a phrosesau barnwriaeth helaethach, yn achosi mwy o her i'r awdurdod lleol ac asiantaethau partner eraill o ran cymryd camau ataliol.

3.9. Ar y cyfan, mae atal yn faes cryfder allweddol, gyda thystiolaeth i ddangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithio'n dda o fewn canllawiau arfer gorau'r ACG er mwyn cefnogi teuluoedd mewn ffordd ataliol heb ddechrau achosion llys a thynnu plant oddi wrth eu teuluoedd, ac eithrio pan fo hynny'n amlwg er budd pennaf y plant hynny.

## 4. A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy’n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?

4.1. Mae'r awdurdod lleol yn gwybod am brofiadau bywyd y plant, ac ar y cyfan, gofynnir am eu barn. Mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael cyfleoedd i rannu eu profiadau am yr hyn sy'n bwysig iddynt, a chaiff hyn ei nodi mewn trafodaethau ac adroddiadau perthnasol.  Gwelsom enghraifft lle y cafodd plentyn ei weld ar ei ben ei hun ar fyrder pan oedd pryderon diogelu, yn unol â'r hyn a ddisgwylir.

4.2. Mae'r Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol yn goruchwylio'r broses o hyrwyddo ymarfer seiliedig ar hawliau yn dda ac yn cymryd rhan weithredol wrth geisio barn y bobl ifanc, ac o ganlyniad i'r cydberthnasau parhaus rhyngddynt a'r plant a'r bobl ifanc dan sylw, maent yn llwyddo i weithredu fel eiriolwyr cyson ar eu rhan. Gwelsom enghreifftiau o blant, pobl ifanc a rhieni yn cael cynnig eiriolaeth ffurfiol, gyda'r cynnig hwn yn cael ei gofnodi'n glir yn y cofnod gofal cymdeithasol.

4.3. Roedd ansawdd y cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd yn amrywiol. Roedd rhai ohonynt yn nodi gwybodaeth ac yn adlewyrchu profiad bywyd y plant unigol yn llawn, ond nid oedd llais y plentyn yn cael sylw digonol fel rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd mewn cofnodion eraill. Nodwyd gennym y gallai'r cynlluniau gofal a'r ddogfennaeth arall y bwriedir iddynt fod ar gael yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc fod yn haws i'w deall.

4.4. Roedd yr enghreifftiau gwell o waith uniongyrchol yn dangos tystiolaeth o greadigrwydd yn y ffordd yr oedd y gweithwyr cymdeithasol yn cyfathrebu â'r plant a'r bobl ifanc, gan roi mwy o bwyslais ar eu llais unigol.  Mewn enghreifftiau

eraill, byddai wedi bod yn fuddiol pe bai'r gwaith hwn wedi'i gynnal yn gynharach, er mwyn rhoi cyfle i'w lleisiau lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn fwy effeithiol. Ar y cyfan, gwelsom mai prin oedd y defnydd o adnoddau penodol wedi'u dylunio i hwyluso'r broses o gyfathrebu â phlant a phobl ifanc.

4.5. Yn y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, roedd gan y gweithwyr cymdeithasol ddigon o gapasiti i gynnal y gwaith uniongyrchol gofynnol â'r plant a'u teuluoedd i gefnogi'r cynlluniau y cytunwyd arnynt ar eu cyfer. Gwelsom fod amlder y cyswllt yn hyrwyddo cyfleoedd da i ffurfio a meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol. Fodd bynnag, mewn un achos, gwnaethom nodi bod trefniadau cyswllt estynedig rhwng plentyn ac aelodau o'i deulu ehangach wedi cael eu gohirio o ganlyniad i ymrwymiadau gwaith eraill yr ymarferydd.

4.6. Clywsom fod y trefniadau proffesiynol sydd ar waith rhwng Conwy a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass Cymru) yn cefnogi'r broses o ddarparu cynrychiolaeth leol effeithiol i'r plentyn, a bod cyfleoedd a rennir i ddysgu a datblygu. Caiff y rhain eu cefnogi gan fentrau sy'n cynnwys y gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau eraill, a bwriedir cyflwyno hyfforddiant pellach mewn ymateb i ail-lansio'r ACG yn ddiweddar.

4.7. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol a'r Barnwr Teulu Dynodedig yn monitro'r effaith a gaiff yr ail-lansiad hwn ledled Gogledd Cymru, er ei bod yn rhy gynnar nodi pa effaith y mae'n ei chael ar yr awdurdodau lleol unigol.

Bydd AGC yn cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol cryno yn seiliedig ar ein canfyddiadau yn ystod hydref 2023. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer y gweithgarwch hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Yn gywir



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**